
Cyfres Nici a Cris



ANRHEG I ALED

acen
Yn Gwasanaethu Dysgwyr y Gymraeg

Yn y siop chwaraeon, mae Nici a Cris yn edrych ar y dillad pêl-droed a rygbi.



"Edrycha Cris! Crys rygbi – grêt!" medd Nici.
"Na! Rhy ddrud. Beth am sanau rygbi?" ebe Cris.
"Na! Rhy fawr," medd Nici.

Na! Dim crys rygbi a dim sanau rygbi i Aled.


Mae Nici a Cris yn edrych ar y dillad nofio.



"Dyma ni! Gogls nofio," medd Nici.
"Na! Beth am siorts nofio?" ebe Cris.
"Ych a fi! Lliw ofnadwy," medd Nici.

O wel, does dim anrheg i Aled yn y siop chwaraeon.

Nesa, mae Nici a Cris yn mynd i siop feiciau.
Mae Aled yn hoffi reidio beic.



"Pnawn da. Ga i weld y bagiau beic, plîs?" medd Cris.
"Dyma chi. Bagiau neis iawn," ebe'r siopwr.
"Na! Rhy ddrud," medd Nici.
"Dim diolch," ebe Cris.

O diar! Does dim anrheg i Aled yn y siop feiciau. Ble nesa?

Mae Nici a Cris yn mynd i'r siop lyfrau.
Mae Aled yn hoffi darllen.



"Beth am lyfr chwaraeon?" medd Nici.
"O, na! Rhy ddrud," ebe Cris.
"Edrycha ar y llyfr yma, Nici," medd Cris.
"O na! Llyfr i blant bach," ebe Nici.

Wel! Does dim anrheg i Aled yn y siop lyfrau. Ble nesa?

Wrth y ganolfan hamdden, mae Nici a Cris yn gweld Ioan ac Elena. Maen nhw'n cario parseli.



"Haia! Ydych chi'n mynd i barti pen-blwydd Aled?" medd Nici.
"Ydyn, yn Caffi Hamdden," ebe Ioan.
"Beth sy yn y parseli?" medd Cris.
"Anrhegion, wrth gwrs," ebe Elena.

O diar! Rhaid cael anrheg i Aled.

Mae Nici a Cris tu allan i'r ganolfan hamdden. Wrth y drws mae poster mawr am gêm rygbi.



"A! Dw i'n gwybod," medd Cris.
"Gwybod beth Cris?" ebe Nici.
"Anrheg i Aled, wrth gwrs. Anrheg ffantastig!" medd Cris.
"Ond Cris, beth ydy'r anrheg?" ebe Nici.

Anrheg i Aled? Beth ydy'r anrheg?


Mae Nici a Cris yn mynd i mewn i'r ganolfan hamdden i brynu anrheg i Aled.



"Tocyn i'r gêm rygbi, plîs," ebe Cris.
"Dyma chi. Deg punt, plîs," medd y ferch.
"Diolch yn fawr iawn," ebe Cris.
"Cŵl! Anrheg grêt, Cris," medd Nici.

Ac mae Nici a Cris yn mynd i'r parti – yn cario anrheg i Aled!


Mae teulu a ffrindiau Aled yn y parti yn Caffi Hamdden.
Mae pawb yn hapus iawn.



"O diolch, Mam a Dad," medd Aled.
"Wyt ti'n hoffi'r parti, Aled?" ebe Dad.
"Parti grêt! Llawer o fwyd a llawer o ffrindiau," medd Aled.
"Amser i agor yr anrhegion, Aled," ebe Mam.

Llawer o fwyd a llawer o ffrindiau! Ond beth ydy'r anrhegion?

Llawer o anrhegion! Ond ydy Aled yn hoffi'r anrhegion?



"Edrycha Aled, sanau rygbi," medd Mam.
"Ond maen nhw'n rhy fawr," ebe Aled.
"Siorts nofio neis iawn, Aled," medd Dad.
"Ych a fi! Lliw ofnadwy," ebe Aled.

O diar! Anrhegion od iawn! Druan o Aled! Beth nesa?

Anrheg arall! Anrheg Mam a Dad.



"Crys rygbi," medd Aled.
"Wyt ti'n hoffi'r crys, Aled?" ebe Mam.
"Mae'n grêt. Crys rygbi Cymru – anrheg bril!" medd Aled.

Mae Aled yn hapus iawn.
Ond beth am anrheg Nici a Cris?

Ie, anrheg Nici a Cris.
Ond ydy Aled yn hapus?



"Cŵl! Tocyn i'r gêm rygbi yn Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd," medd Aled.
"Pen-blwydd hapus iawn, Aled," ebe Nici a Cris.
"O, diolch yn fawr iawn. Anrheg ffantastig!" medd Aled.

Anrhegion? Bobol bach! Mae Aled yn lwcus iawn.

Geirfa

anrheg – present

medd / ebe – says

Wn i ddim – I don't know

Beth am fynd? – How about going?

prynu – (to) buy

rhy ddrud – too expensive

lliw ofnadwy – awful colour

Ga i weld? – May I see?

canolfan hamdden – leisure centre

parseli – parsels

anrhegion – presents

tocyn – ticket

tocynnau – tickets

gwybod – (to) know

pawb – everybody

llawer o fwyd – lots of food

agor – (to) open

Druan o Aled! – Poor Aled!

crys rygbi – rugby shirt

Bobol bach! – Goodness gracious!

lwcus – lucky

acen
Yn Gwasanaethu Dysgwyr y Gymraeg